Gwasanaeth Gwaed Cymru
Welsh Blood Service

Cyfarwyddwr | Director - Mr Alan Prosser
Heol Cwm Elái | Ely Valley Road
Tonysguboriau | Talbot Green
Pontyclun, CF72 9WB

I: Rheolwyr Labordai Trallwyso, Ymarferwyr Trallwyso cc. Haematolegwyr Ymgynghorol

YNGHYLCH: Ymholiadau ynghylch statws brechu rhoddwyr

14/08/2023

Annwyl Gydweithiwr,

Rydym yn ymwybodol bod nifer o ymholiadau wedi cael eu derbyn dros y misoedd diwethaf ynghylch statws brechu rhoddwyr gwaed. Mae'r rhain yn fwyaf cyffredin yn ymwneud â brechu yn erbyn y coronafeirws, ond mae'r un egwyddorion yn wir am frechiadau eraill. Mae rhai cleifion wedi dweud nad ydynt yn hapus i dderbyn gwaed gan roddwyr sydd wedi'u brechu. Gweler yr wybodaeth ganlynol y gellir ei defnyddio i ymateb i'r ymholiadau hyn. Mae'n debyg mai'r mwyaf perthnasol yw'r drydedd ddolen, o dan adran 1 isod: Brechlynnau COVID-19 a Thrallwysiad Gwaed (gan gynnwys PAD (Pre-deposit Autologous Donations) / Directed Donations) (Gorffennaf 2023)

1. Mae Cyd-bwyllgor Cynghori Proffesiynol ar Wasanaethau Trallwyso Gwaed a Thrawsblannu Meinweoedd y DU (JPAC) yn rhoi cyngor ar unrhyw gyfnod gohirio yn dilyn brechiad/imiwneiddio y dylid ei gymhwyso cyn y gall unigolyn roi gwaed.
   https://www.transfusionguidelines.org/dsg/wb/guidelines/im001-immunization
   Mae hyn yn nodi na all rhoddwyr roi gwaed o fewn 48 awr ar ôl cael brechiad coronafeirws ond ar ôl hynny, os ydyn nhw'n iach, gallant roi gwaed. Nid yw'r gwasanaethau gwaed yn gofyn i roddwyr ddatgelu p'un a ydynt wedi cael brechiad ar ôl y cyfnod hwn. Gweler adran 5. SARS-CoV-2 (Brechiad Coronafeirws):
   https://www.transfusionguidelines.org/dsg/wb/guidelines/coronavirus-infection
   Cynhyrchwyd datganiad sefyllfa wedi'i ddiweddaru ynghylch y brechiad coronafeirws ym mis Gorffennaf 2023, gan gyfeirio at geisiadau am waed gan roddwyr nad oeddent wedi cael eu brechu, *PAD (autologous pre-deposit donation)* / *Directed Donation*. Mae hyn yn esbonio pam nad oes unrhyw un o'r opsiynau hyn eu hangen ar gyfer trallwysiad gwaed arferol.
   Brechlynnau COVID-19 a Thrallwysiad Gwaed (gan gynnwys PAD (Pre-deposit Autologous Donations) / Directed Donations) (Gorffennaf 2023)

2. Mae cyngor gan yr MHRA a chan y Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Atal a Rheoli Clefydau (https://www.ecdc.europa.eu/en/publications-data/suspected-adverse-reactions-covid-19-vaccinationand-safety-substances-human) yn nodi nad oes unrhyw fesurau diogelwch gwaed a phlasma ychwanegol yn cael eu hargymell mewn perthynas ag achosion o adweithiau niweidiol a amheuir i frechlynnau COVID-19, ac y gellir derbyn unigolion sydd wedi'u brechu â firysau neu frechlynnau anweithredol / wedi'u lladd neu frechlynnau nad ydynt yn cynnwys cyfryngau byw (fel brechlynnau mRNA a brechlynnau sy'n seiliedig ar fectorau feirws nad ydynt yn atgynhyrchu) fel rhoddwyr, ar yr amod eu bod yn teimlo'n dda."

3. Datganiad ar y cyd gan wasanaethau gwaed AABB, ABC AC ARC yn yr Unol Daleithiau yn cyhoeddi'r datganiad canlynol https://www.aabb.org/news-resources/news/article/2023/01/30/blood-community-issues-new-joint-statement-to-combat-misinformation-regarding-vaccines-and-the-blood-supply

Ni all Gwasanaethau Gwaed y DU, yn unol â gwasanaethau gwaed eraill yn rhyngwladol, ddarparu gwybodaeth am statws brechlyn rhoddwyr i dderbynwyr, ac nid yw hyn yn angenrheidiol o safbwynt diogelwch nac effeithiolrwydd.
Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r Tîm Iechyd Gwaed (BHT) drwy e-bostio WBS.BloodHealthTeam@wales.nhs.uk.

Yr eiddoch yn gywir,

Dr Edwin Massey, Cyfarwyddwr Meddygol GGC